

Ers ei lansiad ym mis Rhagfyr 2018, mae'r ganolfan Arbenigedd Ffotoneg (CPE) wedi bod yn cefnogi busnesau o fewn rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd drwy gymhwysu galluoedd ffotonics datblygedig a ddelir o fewn pedair Prifysgol yng Nghymru.

Yn cael ei ariannu gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru trwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, mae'r Rhaglen CPE yn cael ei harwain gan Brifysgol Glyndŵr o'r Ganolfan OpTIC yn Llanelwy, mewn partneriaeth â Phrifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor a Phrifysgol De Cymru.

Cyfarfod â Rheolwyr Datblygu Busnes CAFF...



Carole Eccles

Rheolwr Datblygu Busnes CPE (Gogledd a Gorllewin Cymru)

Yn ddiweddar ymunodd Carole â CPE fel ein Rheolwr Datblygu Busnes wedi'i lleoli yng Ngogledd Cymru. Drwy gydol ei gyrfa, mae Carole wedi cyflawni amrywiaeth o rolau cyfarwyddo a rheoli ar draws y sectorau peirianeg fecanyddol, electroneg a darlledu teledu, yn ogystal â meddu ar ystod eang o brofiadau ym maes cymorth busnes, datblygiad a thwf.

Hazel Hung

Rheolwr Datblygu Busnes CPE (De a Gorllewin Cymru)

Mae Hazel yn Rheolwr Datblygu Busnes ar gyfer CPE, ac mae'n ymgysylltu â busnesau Cymreig sydd wedi'u lleoli yn rhanbarthau De Cymru. Mae ganddi 10 mlynedd o brofiad o weithio yn y diwydiant ffotoneg yn R&D, datblygu cynnyrch a rheoli prosiectau. Drwy gydol ei gyrfa, mae hi wedi cadw cysylltiadau academiaidd agos drwy brosiectau cydweithredol rhwng diwydiant a Phrifysgolion sydd wedi chwarae rhan allweddol yn nhwf y cwmni.



Arweinwyr Partner Academaidd CAFF



Dr. John Mitchell



Dr. James Wang
Dr. Liyang Yue



Prof. Andrew Evans
Dr. Rachel Cross



Prof. Nigel Copner
Prof. Hefin Rowlands

Yn cefnogi eich busnes heddiw, I ddatblygu eich cynnyrch ar gyfer yfory...

- Bydd CAFF yn galluogi busnesau Cymru i ddefnyddio'r arbenigedd a chyfleusterau o fewn y prifysgolion partner heb oedi ac yn ddidrafferth.
- Bydd ein Rheolwyr Datblygiad Busnes yn ymweld â chi ac yn penderfynu sut a phwy fydd yn cynorthwyo eich busnes ac anghenion y broses.

A wyddoch chi...

- Mae CAFF wedi gwiethio / yn gwiethio ar hyn o bryd ar brosiectau cydweithredol gyda 26 o fentrau diwydiannol.
- Er gwaethaf sefyllfa ddiweddar cyfyngiadau'r clo Covid-19, cafodd 6 o wahanol brosiectau cydweithredol eu cofrestru'n ystod y cyfnod hwn.
- Cwblhawyd 13 o wahanol brosiectau hyd yn hyn, gyda llawer mwy o brosiectau posib yn aros i'w dilyn.



"Mae tîm CPE Prifysgol Bangor wedi buddsoddi llawer o amser ac adnoddau er mwyn datrys y broblem hon drwy weithredu ffotoneg a rhaglennu unigryw yn llwyddiannus. Mae Welsh Slate yn edrych ymlaen at ddatblygu'r prosiect ymhellach gyda Phrifysgol Bangor, gyda'r nod o wella manwl gywirdeb a gweithredu adnabod patrymau, gan sicrhau y bydd y system yn gallu rhedeg yn llwyddiannus yn yr amgylchedd cynhyrchu"

Dylan Evans (Peiriannydd Prosiect, Welsh Slate)

Welsh Slate yw gweithgynhyrchwr a chyflenwr llechi blaenllaw y byd o ran ansawdd ar gyfer ystod ddigyffelyb o gymwysiadau dylunio allanol a mewnol. Gyda'r deunydd yn 500 miliwn o flynyddoedd oed, caiff ei gydnabod yn eang fel y llechen naturiol orau yn y byd. Gan weithredu mewn pedwar lleoliad yn y Deyrnas Unedig, heddiw mae Welsh Slate yn parhau i gynhyrchu llechi to, cynnyrch pensaernïol ac agregau wrth i'w farchnad allforio barhau i dyfu.

Mae gan y cwmni ddiddordeb mewn defnyddio technoleg ffotoneg er mwyn gwella a thynnu'r gorau o'u prosesau gweithgynhyrchu cyfredol, gan gynyddu cynhyrchiant a lleihau costau. Nod y prosiect yw datblygu prototeip arddangos o **System Cyfrif Llechi Awtomatig (ASCS)** ar gyfer y cwmni. Bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i ddisodli'r system gyfrif gyfredol, sy'n defnyddio llaw ac yn cymryd amser, yn ddrud ac yn dueddol o fod yn anghywir yn aml. Disgwylir y bydd rhagor o brosiectau yn parhau ar ôl y prosiect hwn i archwilio ffyrdd o wella a gweithredu'r System Cyfrif Llechi Awtomatig o fewn llinell gweithgynhyrchu Llechi Cymru. Mae'r llechi sy'n cael eu cynhyrchu'n dilyn arferion pecynnu eithaf cymhleth a system cyfrif gan ddefnyddio llaw, sy'n ddiflas ac yn cymryd amser yn sgil cannoedd o lechi. Drwy CPE, dechreuwyd prosiect drwy waith ar y cyd rhwng Prifysgol Bangor (PB) a Welsh Slate er mwyn datblygu datrysiaid dichonadwy ar gyfer cyfrif llechi yn gyflym a manwl gywir. Wedi ymchwil cychwynnol yn PB, datblygwyd rhaglen gyfrif awtomatig gyda'r gallu i gyfrif pecynnau yn fanwl gywir mewn ychydig eiliadau mewn cymhariaeth â sawl munud dan yr arfer flaenorol.

I ddarllen astudiaethau achos manylach ar brosiectau cydweithredol eraill rhwng CPE a phartneriaid menter, ewch i'n gwefan:

www.cpe-wales.org

Cyfleuster Caenu Gwactod Haenau Tenau

Mae Canolfan Arbenigedd Ffotoneg (CPE) yn falch o gyhoeddi bod gwaith yn mynd rhagddo er mwyn mewnosod cyfleuster ymchwil caenu o'r radd flaenaf. Mae'r gwaith caenu haenau tenau hwn, sydd o'r radd flaenaf, wedi cael ei osod yn y labordai a adeiladwyd o'r newydd, a bydd yn cael profion derbyn terfynol cyn bod ar gael ar gyfer prosiectau ymchwil a datblygiad gyda phartneriaid diwydiannol allweddol. Dyma'r cyfleuster cyntaf o'r fath yng Nghymru a bydd ar gael ar gyfer cwmnïau Cymru er mwyn datblygu prosesau neu gynnyrch newydd yn seiliedig ar dechnoleg haenau tenau ac ar gyfer cymwysiadau sy'n arwain at y genhedlaeth nesaf o ddyfeisiadau ffotoneg. Am ragor o wybodaeth ynghylch sut i gael mynediad i'r cyfleuster hwn, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.



Cysylltwch â Ni

Ffôn: +44(0)1745 535232

Facebook: cpewales

E-bost: admincpe@glyndwr.ac.uk

LinkedIn: Centre for Photonics Expertise (CPE)

Gwe: www.cpe-wales.org

Twitter: @theopticcentre



UNDAIR EWROPEAID
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund**